Public

Mr Adam Price MS
Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity & Energy
Tŷ Hywel
Cardiff Bay CF99 1SN

National Energy System Operator
St Catherines Lodge
Bearwood Road
Wokingham
Berkshire RG41 5BN

fintan.slye@neso.energy
www.neso.energy

28 August 2026

Annwyl Weinidog Cabinet,

Ym mis Hydref 2024, comisiynwyd y Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol (NESO) gan lywodraethau Cymru, y DU a'r Alban i gynhyrchu'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol/Strategic Spatial Energy Plan (Y Cynllun/SSEP) cyntaf erioed ar gyfer Prydain Fawr.

Bydd y Cynllun yn helpu i gyflymu ac optimeiddio'r gwaith o ddarparu system ynni ddibynadwy, lân a fforddiadwy yn y dyfodol. Bydd yn rhoi mwy o eglurder i ddiwydiant, buddsoddwyr, defnyddwyr a'r cyhoedd ynghylch sefyllfa ein system ynni ddiwygiedig yn y dyfodol. Bydd y Cynllun yn gweithredu fel mewnbwn sylfaenol i waith cynllunio a darparu'r system ynni ehangach, gan ategu'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (Centralised Strategic Networks Plan), Cynlluniau Strategol Ynni Rhanbarthol (Regional Energy Strategic Plan) a rhaglen Diwygio Prisiau Cenedlaethol (Reformed National Pricing) yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net. Bydd y penderfyniad ar y llwybr sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y Cynllun yn dechrau creu fframwaith ar y cyd ar gyfer Prydain Fawr i gefnogi penderfyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar sail gwybodaeth, gan gydbwyso blaenoriaethau pobl a lleoedd ag anghenion system ynni integredig ar gyfer Prydain Fawr.

Dyma'r cyfle i bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y system ynni yn y dyfodol, gan gefnogi twf economaidd, diogelwch ffynonellau ynni a datblygu'r diwydiannau, y cadwyni cyflenwi a'r gweithlu sydd eu hangen i fodloni ein hanghenion ynni yn y dyfodol. Heddiw, rwy'n falch o rannu'r cam nesaf, Adroddiad Opsiynau Llwybrau (Pathway Options Report) y Cynllun Ynni Gofodol Strategol, gyda chi a'r cyd-gomisiynwyr eraill. Byddai NESO yn croesawu'r cyfle i'ch briffio ar y wybodaeth y mae'n ei ddarparu. Mae pob llwybr yn gyson â'r cyd-destun deddfwriaethol cyffredinol a'r gofynion rheoleiddio a roddir ar NESO. Mae pob llwybr yn cynrychioli cyfaddawdau gwahanol rhwng costau, defnydd tir a defnyddio technolegau newydd. Mae asesiadau amgylcheddol strategol wedi bod yn sail i ddatblygu'r llwybrau hefyd, gan ystyried y rhyngweithio pwysig rhwng y chwe opsiwn llwybr a gyflwynwyd a'r amgylchedd rydyn ni i gyd yn byw ynddo. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cynrychioli penllanw deunaw mis o ddylunio, dadansoddi ac ymgysylltu gan NESO.


Fel y nodir yn y cyd-gomisiwn, mae NESO wedi ymgysylltu'n rheolaidd â llywodraethau Cymru, y DU a'r Alban i ddatblygu opsiynau llwybr. Yn unol â'r fethodoleg ar gyfer y Cynllun, sydd hefyd

wedi'i chymeradwyo gan Ofgem, mae'r opsiynau llwybrau hyn wedi cael eu llywio gan ymgysylltu sylweddol â rhanddeiliaid. Ochr yn ochr â'r Adroddiad Opsiynau Llwybrau canolog, mae Adroddiad Gwybodaeth i Randdeiliaid cysylltiedig yn rhoi manylion y brif wybodaeth a themâu gan randdeiliaid oedd wedi llywio'r gwaith datblygu llwybrau. Roedd hyn yn cynnwys dros 180 o ddigwyddiadau ymgysylltu gyda dros 250 o sefydliadau, a chafodd bron i 1,000 o sylwadau eu hystyried ar draws pum rownd adborth. Mae safbwynt rhanddeiliaid yn mynd y tu hwnt i'r diwydiant ynni, gydag ymchwil gymdeithasol a fforymau gyda chynrychiolwyr o wahanol rannau o gymdeithas hefyd yn llywio'r gwaith.

Mae'r holl opsiynau llwybrau o reidrwydd yn creu cyfleoedd a goblygiadau amrywiol ar gyfer dewisiadau technoleg a chyflymder mabwysiadu ar draws gwahanol rannau o Brydain Fawr. Mae cynhyrchu cynllun o'r maint hwn yn anochel yn cynnwys cyfaddawdu ac ansicrwydd, ac o ganlyniad tynnir sylw at gyngor ar benderfyniadau â lefel isel o anfanteision ar draws y llwybrau hefyd. Mae'r cyd-gomisiwn hefyd yn darparu ar gyfer cyflwyno safbwyntiau llywodraethau Cymru a'r Alban i'r Ysgrifennydd Gwladol ar hyn o bryd, er enghraifft ar yr uchelgeisiau economaidd-gymdeithasol sydd gennych ar gyfer ynni glân.

Mae'r cyflwyniad hwn yn garreg filltir bwysig wrth greu'r Cynllun cyntaf. Credaf y gall ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnoch chi, a'r cyd-gomisiynwyr, i lywio'r penderfyniad a sicrhau system ynni sydd wedi'i chynllunio'n fwy strategol ac sy'n ddibynadwy, glân a fforddiadwy ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn y broses gyfrinachol sy'n ymwneud â dewis yr opsiwn llwybr sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y Cynllun, mae NESO yn edrych ymlaen at gynyddu ein hymgysylltiad ymhellach. Nid yn unig gyda'r rhanddeiliaid sydd wedi llywio'r gwaith hwn hyd yma, ond yn ehangach, a hynny drwy ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Ynni Gofodol Strategol drafft yn gynnar y flwyddyn nesaf, i gyhoeddi'r Cynllun terfynol erbyn diwedd 2027, ac yna Cynlluniau Strategol Ynni Rhanbarthol a'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog yn 2028.

Yn gywir



**Fintan Slye**
Prif Weithredwr

Public

Mr Adam Price MS
Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity & Energy
Tŷ Hywel
Cardiff Bay CF99 1SN

National Energy System Operator
St Catherines Lodge
Bearwood Road
Wokingham
Berkshire RG41 5BN

fintan.slye@neso.energy
www.neso.energy

28 August 2026

Dear Cabinet Minister,

In October 2024 National Energy System Operator (NESO) was commissioned by the Welsh, UK and Scottish governments to produce the first ever Strategic Spatial Energy Plan (SSEP) for Great Britain.

The SSEP will help accelerate and optimise the delivery of a reliable, clean and affordable future energy system. It will provide greater clarity to industry, investors, consumers and the public on the shape of our future reformed energy system. The SSEP will act as a foundational input into wider energy system planning and delivery, underpinning the Centralised Strategic Network Plan (CSNP), Regional Energy Strategic Plans (RESP) and DESNZ's Reformed National Pricing (RNP) programme. The decision on the preferred pathway for the SSEP will begin the creation of a shared framework to support informed national, regional and local decision-making, balancing the priorities of people and places with the needs of an integrated energy system for Great Britain.

This is the opportunity to set the strategic direction for the future energy system, supporting economic growth, energy security and the development of the industries, supply chains and workforce needed to deliver our future energy needs. Today I am pleased to share the next step, the SSEP Pathway Options Report with you and the other co-commissioners. NESO would welcome the opportunity to brief you on the insights it provides. All pathways are consistent with the overarching legislative context and regulatory requirements placed on NESO. Each pathway represents different trade-offs between cost, land use and the deployment of emerging technologies. Strategic environmental assessments have underpinned the development of the pathways too, considering the important interactions of the six presented pathway options with the environment in which we all live.  Taken together this represents the culmination of eighteen months of design, analysis and engagement by NESO.


As set out in the co-commission, NESO has engaged regularly with the Welsh, UK and Scottish governments to develop pathway options. In line with the methodology for the SSEP, also approved by Ofgem, these pathways options have been informed by significant stakeholder

engagement. Alongside the central Pathway Options Report, an accompanying Stakeholder Insights Report details the key insights and themes from stakeholders which informed pathway development. This included over 180 engagement events with more than 250 organisations and considered almost 1,000 comments across five feedback rounds. The stakeholder perspective goes beyond the energy industry, with societal research and forums with representatives of different sections of society also informing the work.

All pathway options necessarily present varying opportunities and implications for technology choices and speeds of adoption across different parts of Great Britain. To produce a plan of this scale inevitably involves trade-offs and uncertainties, as a result advice on low regrets decisions across the pathways is highlighted too.  The co-commission also provides for the views of the Welsh and Scottish governments to be presented to the Secretary of State at this stage, for example, on the socio-economic ambitions that you have for clean energy.

This submission is a significant milestone in the creation of the first SSEP. I believe it can provide you, and the co-commissioners, with the evidence needed to inform the decision and ensure a more strategically planned energy system which is reliable, clean and affordable for the future. Following the confidential process involved in the selection of the preferred pathway option for SSEP, NESO looks forward to stepping up our engagement further. Not only with the stakeholders who have informed this work to date, but more widely, through public consultation on the draft SSEP early next year, to final publication of SSEP by the end of 2027, and then RESP and CSNP in 2028.

Yours sincerely



**Fintan Slye**
Chief Executive